**Sesiwn 2000-2001 Rhif 46**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU, 25 IONAWR 2001

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Geidwadol**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn:

1. gresynu at fwriad y weinyddiaeth Lafur/Ryddfrydol i beidio â pharhau â thaliadau uniongyrchol i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002 ac mae'n galw ar y weinyddiaeth i wrthdroi'r penderfyniad hwn;

2. nodi y bydd ysgol gynradd nodweddiadol yn Lloegr yn derbyn taliadau uniongyrchol ychwanegol o o leiaf £20,000 ac ysgolion uwchradd yn Lloegr o leiaf £60,000 yn 2001/02;

3. cytuno bod y ‘niwl cyllido’ sy'n deillio o'r amrywiaeth enfawr yn yr arian sy'n cael ei wario y pen ar ddisgyblion gan awdurdodau lleol Cymru yn gwbl annerbyniol i rieni ac athrawon, ac felly:

4. yn penderfynu cefnogi cynigion i nodi ar wahân o fewn fformwla'r Asesiad Gwariant Safonol gyllidebau dirprwyedig ysgolion a gwariant arall yr awdurdodau lleol ar addysg.

***Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cyflwyno:***

Yn unol â'r canllawiau ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth - ond bydd y pleidleisiau yn cael eu cymryd yn unigol.

(1)+(4)+(5)+(8)

(2)+(3)+(6)+(7)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt bwled 1

**2. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le

‘1. Yn croesawu cynigion Llywodraeth Partneriaeth Llafur-Democratiaid Rhyddfrydol i ddyrannu arian ychwanegol i’r awdurdodau lleol dros y tair blynedd nesaf er mwyn:

- Lleihau maint dosbarthiadau
- Ariannu grantiau hyfforddi ar gyfer athrawon cynradd newydd Ariannu grantiau hyfforddi ar gyfer athrawon cynradd newydd
- Buddsoddi mewn uwchraddio adeiladau ysgol
- Ail-gyflwyno llaeth ysgol yn rhad ac am ddim i’r disgyblion yng nghyfnod allweddol un’

**3. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le

‘2. nodi bod y ffigurau dros dro ar gyfer 2000-01 yn dangos bod ysgolion yn Lloegr, y tu allan i ardal Llundain, wedi derbyn £2840 y disgybl ar gyfartaledd, o’i gymharu â £2870 y disgybl yng Nghymru.’

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled 2

"nodi â phryder y bydd y cynnydd yn y gwariant ar addysg dros y tair blynedd nesaf yn is o lawer yng Nghymru na Lloegr, a bydd hyn yn gwaethygu’r anfantais bresennol o ran yr arian sy’n cael ei wario y pen ar ddisgyblion yng Nghymru o’i gymharu â Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon"

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwyntiau bwled 3 a 4 ac ychwanegu pwynt bwled newydd

"yn cydnabod bod ffactorau amrywiol yn cyfrannu at y ‘niwl cyllido’ sy’n golygu nad oes dealltwriaeth glir o’r sefyllfa ariannol, ac mae hyn yn achosi rhwystredigaeth ac anfodlonrwydd ymysg ysgolion, llywodraethwyr a staff"

**6. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le

‘3. Yn croesawu’r gwaith sy’n cael ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i archwilio a delio â’r amrywiaeth eang yn yr arian sy’n cael ei wario y pen ar ddisgyblion gan yr awdurdodau yng Nghymru’.

**7. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le

‘4. Yn croesawu’r canolbwyntio ar ganlyniadau gwell yn seiliedig ar rannu blaenoriaethau sy’n cael eu cyflwyno gan gytundebau polisi rhwng yr awdurdodau lleol a’r Cynulliad Cenedlaethol’.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar y diwedd

"yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu data cynhwysfawr a gwrthrychol, fel bod dealltwriaeth glir o’r lefelau a’r patrymau cyllid yng Nghymru a’r cymariaethau rhwng Cymru a gwledydd eraill Prydain"

**Dadl Fer: (i bara am 30 munud)**
**Dafydd Wigley (Caernarfon); Tai yng Nghefn Gwlad**

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 30 Ionawr 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**